

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	04.02.22
Pwnc / Subject:	Y rheoliadau a'r canllawiau ar gyfer ysgolion annibynnol: cais am dystiolaeth

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Mae Estyn yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar y cais am dystiolaeth yn yr adolygiad o'r rheoliadau a'r canllawiau ar gyfer ysgolion annibynnol.

At ei gilydd, rydym yn cytuno â'r angen i adolygu a chryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio ysgolion annibynnol yng Nghymru.

- Rydym wedi amlinellu ffyrdd y gellid diweddarau'r canllawiau presennol ac yn cynnig bod angen canllawiau ychwanegol i gynorthwyo ysgolion.
- Rydym yn cefnogi'r angen i gryfhau trefniadau diogelu trwy gynyddu pa mor aml y cynhelir gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), ac ehangu ystod y bobl sy'n destun gwiriadau o'r fath. Yn ychwanegol, rydym yn cefnogi darparu deunyddiau hyfforddi teilwredig i'r sector annibynnol.
- Wrth ystyried lle llais y dysgwr, nid ydym yn teimlo bod hwn yn faes y mae angen ei gryfhau o fewn y rheoliadau.
- Rydym yn croesawu'r cynnig i gryfhau arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion annibynnol ac yn teimlo y dylid cyflawni hyn trwy reoleiddio yn hytrach na chanllawiau.
- Mae rôl Gweinidogion Cymru o ran ymyrryd pan na fydd ysgolion annibynnol yn cydymffurfio yn hanfodol. Rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at ddatblygu fframwaith ymyrraeth.
- Rydym wedi nodi newidiadau posibl i Safon 1 'Ansawdd Addysg', i adlewyrchu newidiadau mewn cymdeithas a'r symud i weithio ar-lein neu hybrid. Rydym yn awgrymu y dylai'r rheoliadau fynd ymhellach, i gynnwys cofrestru ysgolion ar-lein.
- Rydym yn croesawu'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda CGA.
- Er ein bod yn sylweddoli y gallai galwad am fwy o sylwadau ar y rheoliadau presennol ddilyn y cais hwn am dystiolaeth, rydym wedi achub ar y cyfle hwn i amlinellu arsylwadau ychwanegol. Rydym wedi nodi meysydd ble rydym yn teimlo bod angen diwygio a chryfhau'r safonau, ac adlewyrchu canllawiau presennol Cymru yn gywir.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – Pa newidiadau allwn ni eu gwneud i'r *Canllawiau cofrestru a gweithredu ysgolion annibynnol* i'w gwneud yn ffynhonnell gyngor a gwybodaeth fwy defnyddiol ar gyfer ysgolion annibynnol a darpar ysgolion annibynnol?

Y canllawiau cofrestru a gweithredu ysgolion annibynnol yw'r ddogfen y caiff pob perchennog eu cyfeirio ati os ydynt yn bwriadu agor ysgol annibynnol. Felly, mae angen i'r ddogfen fod yn hygyrch, cynnwys canllawiau clir a chyfeirio at y polisïau a'r manylion cyswllt diweddaraf.

Byddai'r ddogfen bresennol yn elwa ar gael ei diweddarau, yn cynnwys:

- Creu cysylltiadau â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru
- Diweddarau adran 4 i adlewyrchu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg
- Diweddarau manylion cyswllt yn Llywodraeth Cymru
- Disodli cyfeiriadau at AGGCC gyda AGC
- Darparu dolenni at y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer ysgolion preswyl

Ar ôl ei diweddarau, bydd y ddogfen hon yn parhau i fod yn ddogfen bwysig a defnyddiol i berchnogion gyfeirio ati. Fel yr awgrymwyd yn y cais am dystiolaeth, gallai'r canllawiau elwa ar amlinellu'r gofynion yn gliriach mewn gwahanol gamau, fel:

- Cofrestru cychwynnol
- Cofrestru dilynol, a
- Gofynion parhaus

Yn ychwanegol, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried cyhoeddi dogfen fanylach i gynorthwyo ysgolion i ddeall gofynion pob un o'r safonau ysgolion annibynnol pan fyddant yn cofrestru a phan fyddant yn weithredol. Ceir dolen isod at ddogfen debyg a luniwyd gan yr Adran Addysg.

[The Independent School Standards - Guidance for independent schools \(publishing.service.gov.uk\)](http://publishing.service.gov.uk)

Cwestiwn 2 – A ddylai gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar berchnogion a staff gael eu diweddarau'n amlach?

Ar hyn o bryd, wedi i wiriadau cychwynnol manwl gan y GDG gael eu cynnal ar berchnogion a staff, nid oes unrhyw ofyniad i ailadrodd hyn tra byddant yn parhau yn eu swydd. Fodd bynnag, i sicrhau diogelwch parhaus yr holl ddysgwyr, credwn y byddai'n fuddiol pe bai gofyniad i ddiweddarau'r gwiriadau hyn, er enghraifft bob tair blynedd, neu ar ôl cyfnod o absenoldeb estynedig sy'n para tymor neu fwy, er enghraifft pan fyddant ar secondiad neu gyfnod sabothol. Byddai gwiriadau rheolaidd, bob tair blynedd, yn ogystal â darparu'r newid cyfredol sylweddol ar gyfer yr adeg pan fydd y perchennog cofrestredig yn newid neu gadeirydd y corff perchnogion yn newid, yn cryfhau'r broses i asesu addasrwydd perchnogion a staff. Yn ein profiad ni, nid yw ysgolion annibynnol bob amser yn gwneud cais am newid sylweddol i Lywodraeth Cymru ar gyfer newid perchennog neu gadeirydd y corff perchnogion. Dylai'r gofyniad am gyfnod adnewyddu o dair blynedd helpu rheoli'r risg hon yn fwy effeithiol.

Yn ychwanegol, gellid ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr ofyn i staff gwblhau datganiad anghymhwysu blynyddol, fel y dangosir yn yr enghraifft yma [Disqualification-Declaration-Form-issue-4.pdf \(newforestcare.com\)](http://newforestcare.com)

Cwestiwn 3 – A oes yna unrhyw bobl eraill ([Darganfyddwch ba wiriad gan y GDG sy'n addas ar gyfer eich cyflogai - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)) a ddylai gael gwiriadau gan y GDG neu wiriadau eraill cyn iddynt allu gweithio neu ddod i gyswllt rheolaidd gyda dysgwyr yn yr ysgol?

I sicrhau diogelwch yr holl ddysgwyr, credwn y dylai pawb sy'n cael cyswllt rheolaidd â dysgwyr gael gwiriadau manwl gan y GDG, ar yr amod fod hyn yn bodloni'r diffiniadau ar gyfer 'gweithgaredd a reoleiddir'.

Yn achos ysgolion annibynnol, yn ogystal â'r gofynion i'r holl staff addysgu a'r staff nad ydynt yn addysgu gael y gwiriadau manwl hyn, credwn y dylai gwiriadau rheolaidd wedi'u diweddarau fod yn ofyniad hefyd ar gyfer unrhyw staff peripatetig, staff therapiwtig, staff a gyflogir gan yr ysgol i gyflenwi a theuluoedd sy'n derbyn plant, a drefnir gan yr ysgol.

Yn ychwanegol, arweinwyr ysgolion ddylai fod â'r cyfrifoldeb am sicrhau bod gwiriadau priodol wedi cael eu gwneud pan ddefnyddir gwasanaethau sefydliadau allanol. Gallai'r gofyniad hwn fod yn ofyniad eglur yn y safonau ysgolion annibynnol.

Cwestiwn 4 – A fydddech chi'n gweld modiwl hyfforddi newydd ar ofynion *Cadw dysgwyr yn ddiogel* wedi'i anelu'n benodol at ysgolion annibynnol yn fuddiol, a beth ddylid ei gynnwys yn y modiwl, y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes ar gael?

Mae tystiolaeth o arolygu'n cadarnhau bod y rhan fwyaf o ysgolion annibynnol yn cynnal hyfforddiant diogelu priodol ar gyfer pob aelod o staff. Fodd bynnag, yn ein profiad ni, gallai ysgolion annibynnol a'u staff ymddieithrio os nad ydynt yn teimlo bod yr hyfforddiant a ddarperir yn berthnasol iddyn nhw. Yn ychwanegol, gallai'r ysgolion hyn gael anawsterau yn manteisio ar gymorth gan awdurdodau lleol. Felly, credwn y byddai'n ddefnyddiol creu modiwlau hyfforddi sydd wedi'u teilwra i'r sector annibynnol, ac yn darparu isafswm gwaelodlin o ran cymorth yn y maes hwn. Yn ein profiad ni, mae'r meysydd a fyddai'n elwa ar gael arweiniad cliriach yn cynnwys eglurder am rôl perchnogion a phenaethiaid / prifathrawon, a phryd y dylai pryderon ynghylch diogelu yn ymwneud â disgyblion a staff fel ei gilydd gael eu cyfeirio y tu hwnt i'r ysgol. Yn ychwanegol, byddai ysgolion yn elwa ar ddefnyddio 'senarios' yn benodol i'r sector i drafod gyda'u staff ac ystyried 'pa gamau y dylid eu cymryd'.

Cwestiwn 5 – Pa fesurau ychwanegol dylid eu cyflwyno i gryfhau diogelwch a lles dysgwyr, fel hyfforddiant?

Dylai'r mesurau i ddiogelu dysgwyr mewn ysgolion annibynnol fod yn debyg i'r rhai mewn lleoliadau a gynhelir. Dylid amlinellu'r gofynion yn glir mewn fformat hygyrch, fel y modiwlau hyfforddi y sonnir amdanynt yng Nghwestiwn 4. Dylai cwblhau'r modiwlau hyfforddi hyn (ac ymrwymo i'w hadolygu'n rheolaidd, er enghraifft bob blwyddyn) fod yn rhagofyniad ar gyfer cofrestru, o bosibl?

Hefyd, efallai byddai Llywodraeth Cymru'n dymuno ystyried cryfhau canllawiau ar ddefnyddio arferion cyfyngol ac ataliaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y newidiadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch lleihau arferion cyfyngol.

Yn ychwanegol, er nad oes unrhyw sefydliadau hyfforddi a ffeirir i gyflwyno hyfforddiant diogelu, mae ychydig o ysgolion annibynnol yn ei chael yn anodd nodi sefydliadau priodol. Gallai Llywodraeth Cymru, trwy ymgynghori â'r Grŵp Diogelu mewn Addysg a byrddau diogelu rhanbarthol, ddarparu rhestr o sefydliadau hyfforddi addas yn y canllawiau cofrestru a gweithredu diweddaraf, a cheisio cryfhau'r berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion annibynnol o ran manteisio ar hyfforddiant diogelu a chyngor proffesiynol.

Hefyd, efallai byddai Llywodraeth Cymru'n dymuno ystyried cynnwys dyletswydd statudol mewn rheoliadau i'r perchennog hysbysu Llywodraeth Cymru, Estyn ac AGC, os yw'n briodol, o fewn terfyn amser diffiniedig ymchwilad Adran 5 (Gweithdrefnau Diogelu Cymru – ymchwiladau amlasiantaethol ynghylch pryderon am ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth).

Cwestiwn 6 - Sut gallwn ni sicrhau bod llais dysgwyr yn cael ei glywed wrth ddatblygu polisiau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw?

Yn y cais am dystiolaeth, cydnabyddir bod gan rai ysgolion systemau ar waith i gasglu safbwyntiau dysgwyr yn effeithiol wrth ddatblygu polisiau sy'n effeithio arnyn nhw. Ar sail ein gwaith arolygu, gallwn gadarnhau bod rhaid i ysgolion geisio sicrhau bod llais dysgwyr yn cael ei gynnwys mewn polisiau perthnasol.

Efallai byddai Llywodraeth Cymru'n dymuno cryfhau'r agwedd hon ar fywyd ysgol ymhellach trwy argymhell y dylai ysgolion gael cyngor ysgol, fel sy'n ofynnol yn y sector a gynhelir

- (1) *Rhaid i aelodaeth y cyngor ysgol gynnwys disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol yn unig.*
- (2) *Rhaid i gorff llywodraethol ysgol a'r pennaeth wneud trefniadau i ethol o leiaf un disgybl cofrestredig o bob grŵp blwyddyn, o Flwyddyn 3 ac yn uwch, i fod yn aelod o'r cyngor ysgol.*

Mewn ffordd debyg, gallai'r canllawiau hyrwyddo penodi disgybl-lywodraethwyr cyswllt (ble mae corff llywodraethol ar waith) fel sy'n ofynnol yn y sector a gynhelir. Mewn ysgolion sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol y mae eu darpariaeth wedi'i hamlinellu mewn cynllun datblygu unigol (CDU), efallai byddai Llywodraeth Cymru'n dymuno argymhell y dylai dysgwyr gael cyfleoedd addas i gyfrannu at gynllunio ac adolygu'r ddarpariaeth hon, yn unol â'r pwyslais ar arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a amlinellir yn y Cod ADY.

Fodd bynnag, os gwnaed y penderfyniad i gryfhau'r gofyniad hwn, yna byddai angen egluro'r ymadrodd 'polisiau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw' fel bod ysgolion yn glir pa bolisiau fyddai angen mewnbwn dysgwyr.

Cwestiwn 7 – Pa gamau ychwanegol ddylid eu cymryd i gryfhau arwain, rheoli a llywodraethu ysgol?

Wrth ystyried geiriad y safonau, fel y nodwyd yn y cais am dystiolaeth, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r ymadrodd generig 'yr ysgol', yn cael ei ddisodli gan y gair 'perchennog' neu 'pennaeth', fel y bo'n briodol, i sicrhau ei bod yn glir pwy sydd â'r cyfrifoldeb.

Efallai byddai Llywodraeth Cymru'n dymuno ystyried safon yn ymwneud ag ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion (safon 8), fel y gwelir yn y safonau ysgolion annibynnol yn Lloegr.

[The Independent School Standards - Guidance for independent schools \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/612122/Independent_School_Standards_-_Guidance_for_independent_schools.pdf)

Fe'i gwneir yn glir nad yw'r safon hon yn ceisio dweud wrth ysgolion sut i lywodraethu neu reoli eu hunain. Fodd bynnag, os na fodlonir unrhyw safon arall, yna gallai hyn ddangos gwendidau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth y gellir mynd i'r afael â nhw trwy'r safon ychwanegol hon. Rydym wedi nodi yn ein hadroddiadau ysgolion a'n Hadroddiadau Blynyddol ([Adroddiad Blynyddol Estyn 2019-2020 \(llyw.cymru\)](#)) os nad yw ysgolion yn canolbwyntio'n briodol ar feysydd pwysig o waith yr ysgol, fel ansawdd yr addysgu, bod hyn gan amlaf o ganlyniad i ddiffygion mewn arweinyddiaeth.

Yn ychwanegol, gallai Llywodraeth Cymru ystyried ei gwneud yn bosibl i uwch arweinwyr mewn ysgolion annibynnol ennill y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP), a manteisio ar adnoddau gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL).

Cwestiwn 8 – Sut dylid cyflawni camau ychwanegol o'r fath – trwy reoliadau neu drwy ganllawiau?

Credwn y dylid cyflawni'r camau ychwanegol i gryfhau arwain, rheoli a llywodraethu ysgolion annibynnol trwy reoliadau yn hytrach na thrwy ganllawiau. Credwn trwy gryfhau'r rheoliadau yn yr agwedd hon y bydd diffygion yn cael eu nodi'n gliriach, a bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gweithredu'n gyflym ble nad yw arweinwyr yn ymateb i'r diffygion mewn ffordd addas, a chryfhau atebolrwydd ar bob lefel. Yn Lloegr, mae Safon 8 yn ymwneud ag ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, ac fe'i bodlonir os yw'r perchennog yn sicrhau bod pobl â chyfrifoldebau arwain a rheoli yn yr ysgol:

- yn dangos medrau a gwybodaeth dda yn briodol i'w rôl fel bod y safonau ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni'n gyson;

- yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol fel bod y safonau ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni'n gyson; ac
- yn mynd ati i hyrwyddo lles disgyblion.

Yn ychwanegol, mae Rhan 8c Safon 8 yn amodi bod y perchennog sicrhau bod pobl sydd â chyfrifoldebau arwain a rheoli yn yr ysgol yn mynd ati i hyrwyddo lles disgyblion. Yng Nghymru, mae absenoldeb Safon 8 wedi golygu bod gan Lywodraeth Cymru lai o sbardunau ar waith i sicrhau bod perchnogion, llywodraethwyr ac arweinwyr yn cymryd rôl fwy gweithredol mewn cyflawni eu cyfrifoldebau i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Gallai Safon 8 ddarparu'r sylfaen i'n galluogi i gyflwyno'r dystiolaeth hon mewn arolygiadau mwy arferol, lle bo'n briodol, i ddangos tystiolaeth o'r camau a gymerwyd gan arweinwyr a rheolwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Cwestiwn 9 – Pa gamau ddylai fod ar gael i Weinidogion Cymru eu cymryd, ac ym mha amgylchiadau? (Er enghraifft, os na fydd ysgol yn bodloni un neu fwy o'r safonau, neu os na fydd ysgol yn rhoi cynllun gweithredu ar waith, neu os na fydd ysgol yn cydymffurfio â chyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.)

Tra'n cydnabod y gall Llywodraeth Cymru osod cyfyngiadau ar ysgolion annibynnol ar hyn o bryd, a'u tynnu oddi ar y gofrestr ysgolion annibynnol yn y pen draw, rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at ddatblygu fframwaith ymyrraeth ar gyfer Llywodraeth Cymru. Gallai fframwaith o'r fath gynnwys dull fesul cam, gyda graddfeydd amser ar gyfer pob cam fel bod pob ysgol annibynnol yn glir am y disgwyliadau ym mhob cam, ac unrhyw ymyrraeth / cosbau posibl gan Lywodraeth Cymru.

Os byddwn yn nodi achos o fethu bodloni'r Safonau Ysgolion Annibynnol, mae Llywodraeth Cymru'n brydlon o ran gofyn am gynllun gweithredu ac yn gweithio gyda ni i ofyn am gyngor ar briodoldeb y camau a fwriedir, a monitro'r cynnydd a wneir gan yr ysgol ar ôl hynny. Fel arfer, mae hyn yn ddigonol i ysgogi'r gwelliant sydd ei angen mewn modd amserol. Mewn ychydig o achosion yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'i phwerau gorfodi i gyfyngu ar leoliadau newydd a lleihau'r ystod oedran mewn ysgolion annibynnol sy'n achosi pryder. Rydym yn cefnogi'r camau angenrheidiol hyn yn llwyr. Fodd bynnag, anaml y defnyddir ystod lawn y pwerau rheoleiddio yn ymwneud â gorfodi (h.y. cymryd camau i ddileu cofrestrriad ysgol) ond nid yw fel arfer yn ofynnol. Mae cwmpas i archwilio p'un a ellid cyflwyno unrhyw bwerau gorfodi pellach, ble mae ysgol, er enghraifft, yn darparu profiad addysgol da iawn ar gyfer disgyblion i raddau helaeth, ond nid yw arweinwyr, llywodraethwyr, ymddiriedolwyr na'r perchennog yn cyflawni eu dyletswyddau na'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, gall awdurdodau lleol benodi llywodraethwyr ychwanegol neu sefydlu Bwrdd Gweithredol Dros Dro o ran ysgolion a gynhelir, ac mae gan AGC y pŵer i ddiddymu dynodiad unigolyn fel yr unigolyn sy'n gyfrifol am gartref gofal mewn rhai amgylchiadau.

Cwestiwn 10 – Pa newidiadau ydych chi'n eu hystyried sydd eu hangen i ansawdd yr addysg i adlewyrchu'r newidiadau mewn cymdeithas ac anghenion dysgwyr ers llunio'r safonau?

Wrth ystyried sut gallai fod angen diweddarau Safon 1 'Ansawdd Addysg', gwnawn y sylwadau canlynol:

- Byddai'n fuddiol pe bai diffiniad o addysg amser llawn, neu syniad am oriau cyswllt disgwylidig [1(2)(a)(i)]
- Bydd angen diweddarau'r safon i adlewyrchu newidiadau a wnaed yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, h.y. cyfeiriad at ddatganiadau [1(2)(b), 1(2)(e)]
- Efallai byddai Llywodraeth Cymru'n dymuno ychwanegu cymhwysedd digidol at y rhestr o fedrau angenrheidiol yn [1(2)(c)]
- A ddylai cyfeiriadau at ganllawiau priodol ar yrfaeodd fod ar gyfer pob oedran ac nid disgyblion oedran uwchradd yn unig? [1(2)(g)]. Gallai gyfeirio at yrfaeodd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith hefyd, fel yn y Cwricwlwm i Gymru.
- A ddylid gwneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ofyniad cwricwlwm gorfodol fel yn y sector a gynhelir?
- Trwy gydol y safon hon, a ddylid codi lefel y disgwyliad o 'priodol', 'digonol' neu 'boddhaol' i 'da'.

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â Safon 1 'Ansawdd Addysg'. Rydym wedi gwneud sylwadau ychwanegol yn ymwneud â safonau eraill yng Nghwestiwn 16.

Cwestiwn 11 – Pa newidiadau sydd eu hangen i'r rheoliadau a/neu'r canllawiau i ystyried model dysgu cyfunol?

Mae tystiolaeth Estyn o'n hymgysylltu ag ysgolion yn cadarnhau bod yna ysgolion sy'n addysgu'n gyfan gwbl ar-lein, a'r rhai a fydd, oherwydd y profiadau yn ystod y pandemig, yn parhau i gynnig dull cyfunol o addysgu a dysgu.

Yn gyntaf, rydym ni o'r farn y dylid addasu'r rheoliadau a'r canllawiau i gefnogi cofrestru ysgolion ar-lein gan fod yr ysgolion hyn yn gweithredu y tu allan i'r broses gofrestru ar hyn o bryd. Yn Lloegr, mae'r Adran Addysg wedi treialu proses sicrhau ansawdd ar gyfer yr ysgolion hyn.

[Quality assuring providers of full-time online education - Ofsted: schools, early years, further education and skills \(blog.gov.uk\)](#)

Yn ail, dylid cryfhau'r canllawiau a'r rheoliadau fel ei gilydd yn y maes hwn i gyfeirio'n benodol at ansawdd addysgu ar-lein (lle bo'n briodol) yn Safon 1.

Cwestiwn 12 – Pa categorïau o staff ysgolion annibynnol y dylai fod yn ofynnol iddyn nhw gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)?

Bydd mynnu bod pob aelod o staff mewn ysgolion annibynnol yn cofrestru gyda CGA yn darparu cam ychwanegol tuag at ddiogelu dysgwyr, ac fe'i croesewir gan Estyn. Credwn y dylai cofrestru ymestyn i'r holl staff addysgu, y rhai sydd â SAC, a hebdo. Byddai gofyniad i gofrestru yn sicrhau bod safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon a phobl sy'n cefnogi addysgu a dysgu yn cael eu cynnal a'u gwella. Byddai hyn yn galluogi CGA i ymchwilio i, a chlywed, honiadau am ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu droseddau perthnasol a allai godi amheuan ynghylch addasrwydd ymarferwr cofrestredig i ymarfer. Yn ychwanegol, o ran rôl CGA, croesawom y cynnig i roi pŵer ychwanegol i CGA osod gorchmynion atal dros dro i roi diogeliad ychwanegol er mwyn rhoi sicrwydd i ddysgwyr, rhieni, gwarcheidwaid a'r cyhoedd am ymddygiad ac arferion cofrestrai gyda CGA.

Cwestiwn 13 – Pa ffioedd y dylai fod disgwyl i gofrestreion sy'n gweithio yn y sector annibynnol eu talu?

Gan fod cyflogau yn y sector annibynnol yn cyd-fynd yn fras â'r rhai yn y sector a gynhelir neu'n is, mae Estyn yn teimlo y byddai'n briodol i gofrestreion yn y sector annibynnol dalu'r un ffioedd â'r staff hynny sy'n gweithio yn y sector a gynhelir.

Cwestiwn 14: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

At ei gilydd, nid oes disgwyl y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Fodd bynnag, ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol wedi'i chomisiynu mewn ysgolion annibynnol, efallai byddai Llywodraeth Cymru'n dymuno ystyried ychwanegu at y canllawiau i leoliadau a ariennir yn gyhoeddus ystyried y ddarpariaeth Gymraeg fel rhan o'r trefniadau cytundebol.

Cwestiwn 15: Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y cynigion fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nid oes disgwyl y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Cwestiwn 16: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd arnynt:

Wrth adolygu'r rheoliadau presennol, rydym yn dymuno codi'r pwyntiau ychwanegol canlynol:

1. Ymrwymiad posibl i adolygu'r rheoliadau a'r canllawiau yn rheolaidd, o bosibl i gyd-fynd â chylchoedd arolygu Estyn.
2. At ei gilydd, dylid codi'r lefel disgwyliadau / dyheadau yn y ddogfen, h.y. Defnyddio'r term 'da' yn hytrach na 'priodol / boddhaol'.
3. Dylid ychwanegu mwy i adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i CCUHP.
4. Ystyriwch rannu'r rheoliadau yn ddwy adran, un yn edrych ar b'un a oes gan yr ysgol arfaethedig ddogfennau ac adeiladau (nid yw'n ofyniad ar gyfer ysgolion ar-lein) ar waith (cofrestru cychwynnol), ac ail ran y broses yn edrych ar ansawdd y ddarpariaeth a gweithredu. Byddai'n rhaid i ysgolion gydymffurfio â'r rheoliadau ar y ddau ymweliad cyn cael eu cofrestru'n llawn.
5. Mae angen diweddarau'r ddogfen ganllawiau a safonau gan gyfeirio at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.
6. Mae angen ychwanegu diogeliadau amddiffyn rhyddid at y canllawiau hyn o fis Ebrill 2022 neu ar y dyddiad dechrau priodol.
7. Yn arbennig yn Safon 3, ystyriwch ddiwygio'r iaith o gydymffurfio i ganolbwyntio ar ansawdd y ddarpariaeth.
8. Ystyriwch ddefnyddio hyperddolenni trwy gydol y canllawiau a'r rheoliadau i sicrhau eu bod yn cysylltu â'r polisïau diweddaraf
9. Mwy o gysondeb o ran geirio, er enghraifft 'hyrwyddo', 'ystyried'. Nid yw hi bob amser yn glir i ysgolion beth mae hyn yn ei olygu – ystyriwch gael geirfa neu droed nodyn i ddiffinio terminoleg a darparu cyd-destun cyfreithiol, lle bo'n briodol.
10. Mwy o eglurder am yr angen am ddogfennau ar-lein / papur, e.e. derbyniadau a chofrestrau presenoldeb, ac ystyriwch gynnwys hyblygrwydd, lle bo'n briodol

11. Ystyriwch aildrefnu'r cydbwysedd rhwng safonau. Er enghraifft, pam mae un safon gyfan yn rhoi sylw i'r polisi cwynion? Yn yr hinsawdd bresennol, byddai'n fwy priodol mynd i'r afael â'r diwylliant diogelu o dan un safon ar wahân?